
PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD IAU, 23 GORFFENNAF 2020

Yn bresennol: Y Cynghorwyr: John Pughe Roberts (Cadeirydd), Stephen Churchman, Ioan Thomas, John Brynmor Hughes, Aled Wyn Jones, Dave Cowans (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy) a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Wyn Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd: Osian Richards (Cadeirydd Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYN

Yn dilyn cyhoeddi ymgynghoriad gan y Trysorlys, adroddwyd bod yr MHCLG wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn ymateb i'r farn yn achos McCloud. Adroddwyd y byddai'r Pennaeth Cyllid, y Rheolwr Pensiynau a'r Rheolwr Buddsoddi yn llunio ymateb drafft mewn ymgynghoriad gyda Chadeiryddion y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn (dyddiad cau 11eg Hydref 2020). Ategwyd bod y Rheolwr Pensiynau yn cydweithio gyda Hymans i geisio'r nifer o gofnodion fydd angen eu diwygio. Er nad oes amserlen wedi ei rhyddhau, nodwyd bod y gwaith yn waith gweinyddol ychwanegol sylweddol ac y byddai'n cael ei weithredu yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad a derbyn y gorchymyn.

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2020 fel rhai cywir

5. CYFRIFON DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2020. Amylgwyd bod y cyfrifon (drafft) yn destun archwiliad a bod yr archwiliad yn cael ei weithredu gan gwmni Deloitte. Yn dilyn penderfyniad gan Archwilio Cymru bod cyfrifon yn agored i archwiliad cyhoeddus hyd ddechrau Medi, bydd y cyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar y 14eg o Fedi 2020.

Adroddwyd bod gwerth y Gronfa i lawr £143m ar y 31ain o Fawrth a hynny oherwydd goblygiadau pandemig covid 19. Nodwyd bod cwmp sylweddol yng ngwerth y farchnad yn cael ei adlewyrchu ddiwedd Mawrth ond bellach y gwerthoedd wedi codi ac yn parhau yn sefydlog.

Cyfeiriwyd at Nodyn 12, 13 ac 14 lle nodi'r gwybodaeth ehangach ar gostau buddsoddi oherwydd ymglymiad Cronfa Gwynedd a threfniant pwlio buddsoddiadau cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mewn ymateb i gwestiynnau ynglŷn â chostau Partneriaeth Pensiynau Cymru (PPC) a'r Awdurdod Lletya - nodyn 13 (£70k), a oes arbediad yn y gostyngiad ffioedd o gymharu â chostau Cronfa Cyngor Gwynedd, a sut mae modd sicrhau gwerth am arian, nodwyd bod y sefyllfa yn un anodd iawn i brofi ac mai'r dychweliadau sydd yn bwysig yn hytrach na swm y ffioedd. Ystyriwyd bod, bod yn rhan o'r PPC yn dychwelyd manteision maint sydd wedi gostwng ffioedd a bod mwy o wytnwch o fod yn rhan o gronfa fwy. Ategwyd nad oedd y swm wedi ei gynnwys ar gyfer 2018/2019, a hynny mewn camgymeriad.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chwymp sylweddol mewn dididendau ecwiti (Nodyn 15) nodwyd bod yr holl ddididendau yn cael ei ail fuddsoddi yn ôl yn awtomatig i'w cronfeydd perthnasol ac ni chant eu dosbarthu fel incwm buddsoddi. Bydd gwerth y gronfa a'r newid yng ngwerth y farchnad ar y cronfeydd hyn yn adlewyrchu gwerthfawrogiad / dibrisiant cyfalaf ynghyd ag incwm buddsoddi wedi'i ail-fuddsoddi.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

6. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth gan y Rheolwr Buddsoddi. Adroddwyd bod y datganiad yn cael ei adolygu bob 3 mlynedd yn dilyn y prisiant a'i fod wedi ei drafod gyda'r Panel Buddsoddi ym mis Mai 2020

Tynnwyd sylw yn benodol at ddyraniad y Gronfa sydd yn adlewyrchu trosglwyddiad o ecwiti byd-eang i gronfa Credyd Aml Asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) - sydd erbyn hyn yn ffurfio rhan sylweddol o fuddsoddiadau Cronfa Gwynedd.

Tynnwyd sylw at awgrym a wnaed gan Aelodau'r Bwrdd Pensiwn (20/07/20) nad oedd y datganiad yn amlygu'r risgiau / gwersi a ddysgwyd o effaith pandemig covid 19 a digwyddiadau diweddar yn Tsiena. Awgrymwyd yn y cyfarfod hwnnw y dylid ychwanegu brawddeg i baragraff Rheolwyr (tud 57) i adlewyrchu bod yr ymateb wedi bod yn bositif. Cynigiwyd brawddeg a luniwyd gyda Paul Potter (Hymans Robertson) i gyfleu bod y Rheolwyr wedi bod yn rhagweithiol a phositif yn ystod y pandemig covid 19.

Er yn derbyn y rhesymeg, ystyriwyd mai dyma gwaith dyddiol unrhyw Reolwr ac yn aml iawn mae'n rhy hwyr i newid ar ôl sioc annisgwyl - y gamp yw rhagweld unrhyw newidiadau. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid nad oedd y datganiad yn ceisio disgrifio'r hyn y mae'r Rheolwyr Asedau eisoes yn ei wneud, ac nad yw'n bwriadu newid eu 'briff'. Ategwyd bod Rheolwyr yn gyffredinol, wedi ymateb i'r newid a bod heriau gan y Bwrdd Pensiwn yn hybu tryloywder

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi

7. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi ers sefydlu'r Bartneriaeth yn

2017, bod y Bartneriaeth yn mynd o nerth i nerth gyda swyddogion yn cyfarfod yn aml. Yn ystod cyfnod pandemig covid 19, nodwyd bod swyddogion wedi bod yn cyfarfod pob pythefnos ar gyfrwng Teams gyda chyfarfod llawn wedi ei raglennu ar gyfer 24ain o Orffennaf 2020.

Tynnwyd sylw at berfformiad y Gronfa, ac er gwaethaf y pandemig ymddengys bod y farchnad wedi adfer yn dda iawn. Cyfeiriwyd at berfformiad Pzena oedd wedi cyfrannu at danberfformiad Cronfa Twf Byd Eang hyd at 31ain Mawrth 2020 ond sydd erbyn hyn yn gyfrifol am y cynnydd yn y gronfa oherwydd eu dulliau buddsoddi.

Cyfeiriwyd at y trosglwyddiad incwm sefydlog oedd i'w drosglwyddo diwedd Ebrill ond sydd erbyn hyn i'w drosglwyddo ddiwedd mis Gorffennaf 2020. Yng nghyd-destun Marchnadoedd Datblygol, nodwyd bod y gwaith wedi bod yn ddistaw dros y pandemig ond yn faes blaenoriaeth ar gyfer y 6 mis nesaf gyda strwythur Rheolwyr Buddsoddi i'w benderfynu i'r gronfa newydd yma. Adroddwyd, ym maes Marchandoedd Preifat, bod grŵp wedi ei sefydlu i edrych ar opsiynau posib o gyfuno asedau i'r categori yma. Ategwyd bod Russell Investments yn arwain ar y gwaith o ddadansoddi'r hyn sydd ar gael gyda'r portffolio cyfredol a datblygu a rheoli cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru i'r dyfodol. Nodwyd bod angen trafodaethau unigol gyda pob Cronfa i geisio ffordd ymlaen ym maes 'eiddo'. Er yn fodlon gyda'r portffolio presennol, amlygwyd bod cyfle i fuddsoddi yn ehangach gydag eiddo ecwiti byd eang. Gyda dyraniad posib o 10% mewn eiddo, nodwyd mai 9% sydd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gydag awgrym i gynyddu i'r 10% llawn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Rhagwelir sefyllfa eiddo byd eang yn gwaethygu o effeithiau covid 19 gyda llai o alw am eiddo busnes. Er hynny, rheswm da i symud ymlaen gan ddefnyddio arian sydd yn weddill, ond i fod yn bwyllog o ran 'gwerthu'
- Bod angen cymryd camau gofalus – pandemig covid 19 wedi cael effaith ar y ac felly angen ystyried y mathau o fuddsoddiadau yn ofalus cyn trosglwyddo.

Mewn ymateb i'w sylwadau, nodwyd bod yr argyfwng wedi prysuro tuedd o'r hyn oedd angen ei weithredu. Ategwyd bod 80% o Gronfa Gwynedd eisoes wedi ei drosglwyddo i Gronfa PPC. Nid oedd bwriad rhuthro i wneud trosglwyddiadau pellach, ond bod cyfleoedd yn codi a bod modd manteisio ar hynny, er engraifft, edrych efallai ar y posibilrwydd o fuddsoddi yn isadeiledd Cymru.

Derbyniwyd y wybodaeth

8. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlygu dymuniad Partneriaeth Pensiwn Cymru i bob Pwyllgor unigol o fewn y Bartneriaeth gymeradwyo eu Cynllun Busnes. Adroddwyd bod y Cynllun Busnes yn cynnwys manylion ynghylch blaenoriaethau'r Bartneriaeth ar fodd y bydd yn cyflawni'r amcanion ar gyfer 2020 / 2023. Mae trefniadau llywodraethu, polisïau a chynlluniau ynghyd a gwybodaeth am eu safbwynt marchnata, cyllidebau ariannol a chrynodeb o fuddsoddiadau ac amcanion perfformiad y Bartneriaeth hefyd wedi eu cynnwys.

Nodwyd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos gyda Swyddogion, Hymans a'r Awdurdod Lletya (Caerfyrddin) i rannu diweddariadau, gwybodaeth a chael mewnbyn i ddogfennau. Ategwyd bod nifer o bolisïau wedi eu ffurfioli dros y cyfnod clo a bod rhain ar gael ar wefan y Bartneriaeth. Tynnwyd sylw at y cynllun hyfforddi sydd yn trafod nifer o bynciau fel bod Aelodau yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol – bydd rhain yn sesiynau buddiol ac hyblyg i Aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn ac yn debygol o

gael eu cynnal dros y We.

Mewn ymateb i sylw blaenorol at gostau Partneriaeth Pensiwn Cymru (£70k) amlygwyd bod yr Awdurdod Lletya yn dygymod a gwaith ychwanegol / sylweddol ac nad oedd y gyllideb i weld yn ddigonol. Ategodd y Rheolwr Buddsoddi bod un swyddog ychwanegol wedi ei benodi a bod swyddogion presennol yr Awdurdod yn derbyn cyfrifoldebau ychwanegol. Ategodd y Pennaeth Cyllid bod y swm yn rhesymol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Busnes

9. RHEOLAETH TRYSORLYS 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn nodi bod penderfyniad blynyddol yn cael ei wneud i ganiatáu i gronfeydd dros ben y Gronfa Bensiwn gael eu cyfuno a'u cydfuddsoddi a llif arian cyffredinol y Cyngor. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o Gôd CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Adroddwyd, yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 arhosodd gweithgaredd benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £546,000 o log ar fuddsoddiadau oedd yn uwch na'r £406,000 a oedd yn y gyllideb. Ategwyd na wnaeth unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda, fethu â thalu, a chyrrhaeddwyd pob dangosydd darbodus.

Er bod gostyngiad yng werth y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn 31/03/20 yn amlygu effaith negyddol o ganlyniad i bandemig covid 19, adroddwyd mai buddsoddiadau tymor canolig oedd dan sylw ac felly cyfle i adfer / adennill y golled.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.45 y.b.

CADEIRYDD